Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A483, yr A489, yr A470 a'r A44 (Lleoliadau Amrywiol yn Siroedd Powys a Cheredigion) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 201-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn.

Mae'r Gorchymyn arfaethedig yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i gydrannau fferm wynt, a'r rheiny'n llwythi anarferol na ellir eu rhannu (fel y'u diffinnir yng Ngorchymyn Cerbydau Ffyrdd (Awdurdodi Mathau Arbennig) (Cyffredinol) 2003 (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "Gorchymyn 2003") gael eu cludo ar hyd Cefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) a Chefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (yr A489, yr A470 a'r A44) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd") yn Siroedd Powys a Cheredigion.

Disgwylir i'r gwaharddiadau, a roddir ar waith yn ysbeidiol, ddod i rym am 07:00 o'r gloch ar 13 Ebrill 2012 hyd 19:00 o'r gloch ar 13 Ebrill 2012 neu hyd nes y bydd y gwaith o gludo'r cydrannau wedi ei gwblhau.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd dros dro bob cerbyd, cerddwr a beiciwr, ac eithrio cerbydau esempt a phersonau esempt, rhag mynd drwy fannau cyfyng ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn ar yr adegau y bydd yr heddlu a/neu'r hebryngwyr a gyflogir yn unol â Gorchymyn 2003 yn hysbysu amdanynt. Disgwylir i'r gwaharddiadau barhau am gyfnodau o 10 munud ar y mwyaf ac ni chynigir unrhyw lwybrau amgen.

Er mai dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf fel mesur wrth gefn rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith o gludo'r cydrannau oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr yn Llanymynech, Powys i'w chyffordd â chefnffordd yr A489 yn y Drenewydd, Powys.

Y darn o gefnffordd yr A489 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A483 yn y Drenewydd, Powys i'w chyffordd â chefnffordd yr A470 Caersŵs – Machynlleth yng Nghaersŵs, Powys.

Y darn o gefnffordd yr A470 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A470 Caersŵs – Machynlleth yng Nghaersŵs, Powys i'w chyffordd â chefnffordd Caerdydd – Llangurig yr A470 yn Llangurig, Powys.

Y darn o gefnffordd yr A44 sy'n ymestyn o'i chyffordd â chefnffordd yr A470 yn Llangurig, Powys i'w chyffordd â ffordd sirol y B4343 ger Ponterwyd, Ceredigion.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

The A483, A489, A470 & A44 Trunk Roads (Various Locations in The Counties of Powys and Ceredigion) (Temporary Prohibition of Vehicles, Pedestrians and Cyclists) Order 201-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The proposed Order is necessary to permit the transportation of wind farm components, which comprise abnormal indivisible loads (as defined in the Road Vehicle (Authorisation of Special Types) (General) Order 2003 (hereinafter referred to as "the 2003 Order"), along the Swansea – Manchester Trunk Road (A483) and the Newtown – Aberystwyth Trunk Road (A489, A470 and A44) (hereinafter referred to as "the trunk roads") in the Counties of Powys and Ceredigion.

The prohibitions, which will be applied intermittently, are expected to come into force at 07:00 hours on 13 April 2012 until 19:00 hours on 13 April 2012 or until the transportation of the components has been completed.

The effect of the proposed Order will be to temporarily prohibit all vehicles, pedestrians and cyclists, other than exempted vehicles and persons, from proceeding along pinch points in the lengths of the trunk roads specified in the Schedule to this Notice during such times as advised by the police and/or attendants employed pursuant to the 2003 Order. The prohibitions are expected to be for maximum periods of 10 minutes and no alternative routes are proposed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the transportation of the components need to be rescheduled due to unforeseen circumstances.

M D BURNELL
Transport
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the A483 trunk road that extends from the Wales/England border at Llanymynech, Powys to its junction with the A489 trunk road at Newtown, Powys.

The length of the A489 trunk road that extends from its junction with the A483 trunk road at Newtown, Powys to its junction with the A470 Caersws – Machynlleth trunk road at Caersws, Powys.

The length of the A470 trunk road that extends from its junction with the A470 Caersws – Machynlleth trunk road at Caersws, Powys to its junction with the A470 Cardiff – Llangurig trunk road at Llangurig, Powys.

The length of the A44 trunk road that extends from its junction with the A470 trunk road at Llangurig, Powys to its junction with the B4343 county road near Ponterwyd, Ceredigion.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE